COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Ymddiriedolaethau Elusennol: Gweithred Ymddiriedolaeth Enghreifftiol

TACHWEDD 2013
Fformat newydd Ionawr 2017

Nodiadau

# Ymddiriedolaethau Elusennol: Gweithred Ymddiriedolaeth Enghreifftiol (GD2)

Mae ymddiriedolaeth yn debygol o fod yn briodol:

- pan na fydd aelodaeth gan yr elusen; a
- phan na fydd yr elusen yn debygol o gyflogi nifer sylweddol o staff neu ymgymryd ag unrhyw fath o fusnes.

## Canllawiau i'w hystyried cyn dechrau

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddechrau drwy ddarllen y canllawiau canlynol ar ein gwefan:

- Yr wybodaeth gynhwysfawr o dan Dechrau elusen.
- Cofrestru fel Elusen (CC21). Bydd y rhestr wirio o gwestiynau yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i sefydlu'r elusen.
- Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol (CC22). Mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i gwblhau dogfen lywodraethol yr elusen a'r darpariaethau gwahanol y gall fod eu hangen.
- Ein canllaw Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3), sy'n nodi'r pethau sylfaenol y dylai pob ymddiriedolwr eu gwybod.

## Y camau nesaf

1. Cwblhau'r weithred ymddiriedolaeth

Pan fyddwch wedi penderfynu gwneud cais i gofrestru fel ymddiriedolaeth elusennol, darllenwch y weithred ymddiriedolaeth a'r canllawiau cysylltiedig yn ofalus.

Mae rhai cymalau'n cynnwys bylchau gwag y bydd rhaid i chi eu llenwi.

Mae'r weithred ymddiriedolaeth enghreifftiol yn bwriadu bod yn ddigon hyblyg i ddelio â'r rhan fwyaf o achosion. Os hoffech chi gynnwys darpariaethau arbennig neu gymhleth sydd heb eu cynnwys ynddi, dylech chi ystyried gofyn i gyfreithiwr am gymorth. Gwnewch unrhyw newidiadau yn glir gan esbonio pam bod angen eu gwneud. Bydd hyn yn ein helpu ni i ystyried eich cais mor gyflym â phosibl. Ni allwn warantu y byddwn yn derbyn pob sefydliad sy'n defnyddio'r weithred ymddiriedolaeth enghreifftiol fel sefydliad elusennol. Mae'n rhaid i ni ystyried pob cais ar wahân.

2. Ar ôl i chi gwblhau'r weithred ymddiriedolaeth enghreifftiol, dylech chi:

- gyflawni'r weithred - mae hyn yn golygu ei harwyddo a'i dyddio yng ngŵydd tyst - mae'r nodiadau yn rhoi mwy o fanylion am hyn; a
- gwirio a oes angen i Dollau Tramor a Chartref EM stampio'r weithred (gweler y dudalen nesaf o dan 'Oes angen i'r weithred gael ei stampio?')

3. Gwneud cais i gofrestru

I gofrestru elusen newydd, gwnewch gais ar-lein. (Mae'r deunyddiau gwneud cais ar-lein yn cynnwys Cais i gofrestru - canllawiau).

Atodwch gopi o'ch gweithred ymddiriedolaeth wedi'i chyflawni'n derfynol a'ch Datganiad Ymddiriedolwr i'ch cais. Os na allwch atodi'r dogfennau hyn i'ch cais ewch ymlaen i wneud cais ar-lein a byddwn yn anfon cyfarwyddiadau atoch drwy'r e-bost sy'n dangos sut i'w hanfon atom.

Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan defnyddio'r ddolen o hafan ein gwefan.

4. Faint fydd hi'n cymryd?

Fel rheol gallwn wneud penderfyniad ymhen 15 diwrnod gwaith os yw sefydliad yn:

- defnyddio ein geiriau enghreifftiol ar gyfer ei amcanion (fel y'u nodwyd yn Amcanion elusennol enghreifftiol ar ein gwefan);
- dangos bod ei weithgareddau yn cyd-fynd â'r amcanion;
- dangos bod unrhyw fudd preifat yn atodol ac wedi'i reoli'n briodol;
- defnyddio ein dogfen lywodraethol enghreifftiol.

Bydd angen ystyried ceisiadau eraill yn fwy manwl ac felly byddwn yn cymryd yn hwy (yn enwedig os yw dibenion yr elusen yn newydd a/neu ar ffiniau'r hyn sy'n elusennol).

## Oes angen i'r weithred gael ei stampio?

Rhaid i weithredoedd a gyflawnwyd cyn 1 Rhagfyr 2003 gael eu stampio.

Rhaid i weithredoedd a gyflawnwyd ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2003 ond cyn 13 Mawrth 2008 gael eu stampio dim ond os yw'r weithred yn datgan ymddiriedolaethau dros stociau a chyfranddaliadau.

Nid oes angen stampio gweithredoedd a gyflawnwyd ar neu ar ôl 13 Mawrth 2008.

Os oes angen stampio eich Gweithred yna dylid ei hanfon (neu gopi ardystiedig ohoni) i:

Cyllid a Thollau EM
Swyddfa Stampio Birmingham
City Centre House
30 Union Street
Birmingham
B2 4AR

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Cyllid a Thollau EM (**www.hmrc.gov.uk**) neu drwy ffonio llinell gymorth Toll Stampiau: 0845 603 0135.

## Nodiadau

Ymddiriedolwyr cyntaf - Nodwch enwau a chyfeiriadau llawn. (Mae Cymal 9 yn pennu isafswm yr ymddiriedolwyr.) Dylai'r ymddiriedolwyr cyntaf fod yr un bobl y mae eu llofnodion wedi'u tystio ar ddiwedd y datganiad ymddiriedolaeth hwn ac mae eu henwau yn ymddangos ar y ddogfen Cais i gofrestru elusen Datganiad yr Ymddiriedolwyr. Bydd nifer o ddyletswyddau cyfreithiol gan yr ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'u nodi yn ein canllaw Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3). Dylai pob darpar ymddiriedolwr elusen ddarllen y canllaw hwn cyn ymgymryd â'i swydd.

Swm Cychwynnol - Rhowch ddisgrifiad o'r arian neu'r eiddo arall a ddelir. Ni all ymddiriedolaeth fodoli oni bai bod rhywfaint o arian neu eiddo yn amodol arni. Mae rhan-dal yn ddigonol i greu ymddiriedolaeth elusennol, ond mae'n bosib na fydd yn ddigon i'r ymddiriedolaeth fod yn gymwys i gael ei chofrestru: gweler Cofrestru fel Elusen (CC21).

**Cymal 2** - Gellir arfer y pŵer yn y cymal hwn pryd bynnag y teimla'r ymddiriedolwyr y bydd newid enw'r elusen o fudd i'r elusen. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn gwrthwynebu enw newydd dim ond os yw'n groes i'r egwyddorion a nodir yn adran 42 Deddf Elusennau 2011 (yn fyr, os yw'r enw yn rhy debyg i enw elusen arall, neu os yw'n gamarweiniol neu'n gamgynrychioladol mewn rhyw ffordd, neu os yw'n dramgwyddus).

## MAE'R DATGANIAD YMDDIRIEDOLAETH HWN YN CAEL EI WNEUD

ar y ..........diwrnod o .........................................................20 ............... gan

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

('yr ymddiriedolwyr cyntaf')

Mae'r ymddiriedolwyr cyntaf yn dal y swm o

£ .........................................................................................................

.............................................................................................................

ar yr ymddiriedolaethau a ddatgenir yn y weithred hon a disgwyliant dderbyn mwy o arian neu asedau ar yr un ymddiriedolaethau.

## MAE'R WEITHRED HON YN TYSTIO FEL A GANLYN:

### 1. Gweinyddiaeth

Bydd yr ymddiriedolaeth elusennol a grëir gan y weithred hon ('yr elusen') yn cael ei gweinyddu gan yr ymddiriedolwyr. (Yn y weithred hon, mae'r ymadrodd 'yr ymddiriedolwyr' yn cyfeirio at yr unigolion sy'n ymddiriedolwyr yr elusen ar unrhyw adeg arbennig. Mae'n cynnwys yr ymddiriedolwyr cyntaf a'u holynwyr. Mae'r gair 'ymddiriedolwr' yn cyfeirio at unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.)

### 2. Enw

Caiff yr elusen ei galw'n

.............................................................................................................

.............................................................................................................

## Nodiadau

**Cymal 3** - Rhowch ddisgrifiad clir yma o'r hyn y bydd eich elusen yn ceisio ei gyflawni. Rhaid datgan amcan elusen yn nhermau elusennol yn unig a gall hyn fod yn eithaf anodd. Mae arweiniad ar gael yn ein canllaw Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol (CC22) ac ar ein gwefan lle y gwelwch rai amcanion enghreifftiol sylfaenol. Yr elfennau allweddol i'w cynnwys yw:

- y pwrpas ei hun (e.e. sefydlu a rhedeg ysgol);
- y bobl a all gael budd (yn ein henghraifft ni, plant oedran ysgol); ac, os yw'n briodol
- unrhyw derfynau daearyddol a all fod eu hangen i ddiffinio'r ardal o fudd. Ni fydd angen gwneud hyn bob tro. Os ydych yn cynnwys ardal o fudd, mae'n arferol i'w diffinio trwy gyfeirio at ardal llywodraeth leol sy'n ei gwneud hi'n glir ac yn syml, ond gall creu problemau os yw'r ardal yn cael ei newid neu ei diddymu yn ddiweddarach.

Os bydd yr elusen yn gweithredu yn yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon dylech gynnwys y geiriad mewn cromfachau sgwâr i fodloni gofynion y gyfraith elusennau yn y wlad honno/gwledydd hynny, gan ddileu fel y bo angen os yw'r elusen yn gweithredu yn un o'r ddwy wlad.

**Cymal 4** - Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r ymddiriedolwyr i wario cyfalaf yr elusen, ond nid yw'n golygu bod rhaid iddynt wneud hynny (dim ond incwm yr elusen sy'n rhaid cael ei ddefnyddio). Mae hyn yn egluro nad yw cyfalaf elusen yn 'waddol parhaol' a gellir ei ddefnyddio fel incwm os oes angen.

## 3. Amcanion

Amcanion yr elusen ('yr amcanion') yw:

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

.........................................................................................................................

[Ni fydd unrhyw beth yn y weithred hon yn awdurdodi defnyddio eiddo'r elusen ar gyfer dibenion sydd heb fod yn elusennol yn unol ag adran 7 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a/neu adran 2 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008.]

## 4. Defnyddio incwm a chyfalaf

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio'r incwm ac, yn ôl eu disgresiwn, y cyfan neu ran o gyfalaf yr elusen i hyrwyddo'r amcanion.

## 5. Pwerau

Yn ogystal ag unrhyw bwerau eraill sydd ganddynt, gall yr ymddiriedolwyr arfer unrhyw un o'r pwerau canlynol er mwyn hyrwyddo'r amcanion (ond nid at unrhyw bwrpas arall):

(1) codi arian. Wrth iddynt arfer y pŵer hwn, ni all yr ymddiriedolwyr ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu parhaol trethadwy a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw reoliadau statudol perthnasol;

(2) prynu, cymryd ar brydles neu drwy gyfnewid, hurio neu gaffael fel arall eiddo, ei gynnal a'i gyfarparu i'w ddefnyddio;

(3) gwerthu, gosod ar brydles neu waredu fel arall ar y cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno. Wrth arfer y pŵer hwn, rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 117 - 122 Deddf Elusennau 2011;

(4) benthyca arian a chodi'r cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno fel gwarant ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd. Rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 124 - 126 Deddf Elusennau 2011 os ydynt yn dymuno morgeisio tir y mae'r elusen yn berchen arno;

(5) cydweithredu ag elusennau, cyrff gwirfoddol ac awdurdodau statudol eraill a chyfnewid gwybodaeth a chyngor â hwy;

(6) sefydlu neu gefnogi unrhyw ymddiriedolaethau, cymdeithasau neu sefydliadau elusennol sy'n cael eu ffurfio ar gyfer unrhyw un o'r dibenion elusennol sydd wedi'u cynnwys yn yr amcanion;

(7) caffael, uno neu arwyddo unrhyw bartneriaeth neu drefniadau menter ar y cyd ag unrhyw elusen arall sy'n cael ei ffurfio ar gyfer unrhyw un o'r amcanion;

(8) creu pwyllgorau ymgynghorol fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn dda;

(9) cyflogi a thalu staff fel y bo angen am wneud gwaith yr elusen;

(10) gwneud unrhyw beth cyfreithlon arall sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn cyflawni'r amcanion.

## 6. Pwerau statudol

Nid yw unrhyw beth yn y weithred hon yn cyfyngu neu'n gwahardd yr ymddiriedolwyr rhag arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 o ran buddsoddi, caffael neu waredu tir a chyflogi asiantau, enwebeion a cheidwaid.

### Nodiadau

**Cymal 5** - Dylech gynnwys unrhyw bwerau o'r is-gymalau canlynol sy'n angenrheidiol yn eich barn chi, wedi'u rhifo mewn trefn. Mae rhai pwerau ymhlyg yn amcanion yr elusen (er enghraifft, os mai'r amcan yw darparu ysgol, mae pŵer ymhlyg gan yr ymddiriedolwyr i gaffael eiddo). Rhoddir pwerau eraill trwy statud, dim ond os yw amodau penodol yn cael eu bodloni yn aml. Er enghraifft, mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn rhoi pŵer i ymddiriedolwyr gaffael a gwaredu tir, benthyca arian mewn nifer o achosion, dirprwyo'r rhan fwyaf o weinyddiad yr elusen a buddsoddi. Ond, mae rhai pethau y gellir eu gwneud dim ond os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn darparu pŵer penodol i'w gwneud. Mae'n ddoeth pennu'r holl bwerau y bydd eu hangen ar yr elusen er mwyn osgoi ansicrwydd ac atgoffa ymddiriedolwyr o'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni pan fyddant yn arfer y pwerau hynny.

**Cymal 5(1)** - Mae'r is-gymal hwn yn darparu pŵer cyffredinol i godi arian trwy amryw helaeth o ddulliau gan gynnwys gwahodd a derbyn rhoddion a chymynroddion. Yr unig gyfyngiad yma yw nid yw'n caniatáu i'r elusen ymgymryd â masnachu parhaol trethadwy at ddiben codi arian. Mae masnachu ar raddfa fach yn cael ei ganiatáu. Mae Tollau Tramor a Chartref EM yn rhoi arweiniad ar sut y caiff mathau gwahanol o fasnachu eu trin o ran treth. Os yw'ch elusen yn debygol o godi arian trwy fasnachu, mae ein canllaw Elusennau a Masnachu (CC35) yn darparu cyngor manwl. Nid yw'r is-gymal hwn yn atal masnachu er mwyn cyflawni amcan yr elusen - er enghraifft, gall elusen addysgol godi ffioedd am y gwasanaethau addysgol a ddarperir.

**Cymal 5(2)** - Mae'r pŵer hwn yn ddefnyddiol os yw'r ymddiriedolwyr am gaffael eiddo naill ai i'w ddefnyddio fel swyddfa neu'n weithredol (e.e. lle chwarae neu safle ysgol). Mae ein canllaw Prynu Tir (CC33) yn cynnig rhagor o arweiniad ar y mater hwn. Pan fydd yr ymddiriedolwyr yn caffael tir i'r elusen, ni all yr elusen berchen ar y tir yn uniongyrchol oherwydd nid oes hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ganddi. Felly, bydd angen i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y teitl i dir yr elusen yn cael ei ddal yn enw unigolion, neu gwmni, mewn ymddiriedolaeth ar ran yr elusen. Fel arfer gall hyn fod yn rhai o'r ymddiriedolwyr neu bob un ohonynt, y Ceidwad Swyddogol i Elusennau (gweler Gwasanaeth Dal Tir y Ceidwad Swyddogol i Elusennau - CC13) neu'n enwebai - gweler nodiadau cymal 6.

## Nodiadau

**Cymal 5(3)** - Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r elusen i waredu ei heiddo. Mae adrannau 117 - 122 Deddf Elusennau 2011 yn gymwys i'r rhan fwyaf o elusennau ac yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â rhai amodau er mwyn sicrhau bod eiddo elusen yn cael ei werthu am y pris gorau y mae'n rhesymol i'w gael. Mae ein canllaw Gwerthu Tir Elusennau (CC28) yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn.

**Cymal 5(4)** - Mae hwn yn rhoi pŵer penodol i'r ymddiriedolwyr fenthyca arian. Mae hefyd yn egluro os yw'r pŵer hwn i fenthyca yn cynnwys gwarantu'r benthyciad ar asedau'r elusen, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn fyr, mae'r Ddeddf yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn ceisio cyngor a darparu rhai datganiadau/ardystiadau pan fyddant yn benthyca arian trwy gyfrwng morgais. Mae ein Canllaw Gweithredol Benthyca a Morgeisiau ar ein gwefan yn rhoi gwybodaeth fanwl am hyn.

**Cymal 5(9)** - Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i gyflogi ymddiriedolwyr fel staff. Gweler cymal 28.

**Cymal 6** - Bydd pwerau eang gan yr ymddiriedolwyr a roddwyd gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, os ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y ddogfen hon neu beidio. Mae'r pŵer statudol i fuddsoddi yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn ceisio cyngor ac ystyried yr angen i fuddsoddi mewn amryw o fuddsoddiadau gwahanol. Mae ein canllaw Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol (CC14) yn rhoi rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau elusennau. Mae'r pwerau i gyflogi asiantau, enwebeion a cheidwaid yn arbennig o ddefnyddiol os yw elusen yn dymuno defnyddio rheolwr buddsoddi neu os yw'n berchen ar dir ac mae angen enwebai arni i ddal y tir ar ei rhan - gweler y nodyn ar gymal 5(2).

**Cymal 7** - Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau eu dirprwyon.

**Cymal 9** - Nodwch nifer yr ymddiriedolwyr yn y cromfachau sgwâr. Oni bai y caiff yr elusen ei gweinyddu gan gwmni, argymhellwn fod o leiaf tri ymddiriedolwr yn cael eu penodi. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod penderfyniadau o ansawdd yn cael eu gwneud a rhannu'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â swydd ymddiriedolwr. (Rhaid cael o leiaf ddau ymddiriedolwr er mwyn rhoi derbynneb am gyfalaf). Cyfeiriwch hefyd at gymal 12 y weithred am nifer yr ymddiriedolwyr. Argymhellwn

## 7. Dirprwyo

(1) Yn ogystal â'u pwerau statudol, gall yr ymddiriedolwyr ddirprwyo unrhyw un o'u pwerau neu eu swyddogaethau i bwyllgor o ddau ymddiriedolwr neu fwy. Rhaid i bwyllgor weithredu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr ymddiriedolwyr. Rhaid iddo adrodd am ei benderfyniadau a'i weithgareddau yn llawn ac yn brydlon i'r ymddiriedolwyr. Rhaid iddo beidio â gwario arian ar ran yr elusen ac eithrio yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni o flaen llaw gan yr ymddiriedolwyr.

(2) Rhaid i'r ymddiriedolwyr arfer eu pwerau ar y cyd mewn cyfarfodydd a gynullwyd yn briodol oni bai eu bod nhw wedi:

(a) dirprwyo'r pwerau (naill ai o dan y ddarpariaeth hon neu o dan unrhyw ddarpariaeth statudol arall), neu

(b) gwneud rhyw drefniadau eraill, trwy reoliadau o dan gymal 22.

(3) Rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried o bryd i'w gilydd a ddylid parhau i ddirprwyo'r pwerau neu'r swyddogaethau y maent wedi'u dirprwyo.

## 8. Dyletswydd gofal a graddfa atebolrwydd

(1) Wrth arfer unrhyw bŵer (boed wedi'i roi iddynt trwy'r weithred hon, neu drwy statud, neu drwy unrhyw reolaeth y gyfraith) wrth weinyddu neu reoli'r elusen, rhaid i bob un o'r ymddiriedolwyr ddefnyddio'r lefel o ofal a medr sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan ystyried unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo neu ganddi neu y mae'n honni sydd ganddo neu ganddi ('dyletswydd gofal').

(2) Ni fydd unrhyw ymddiriedolwr, nac unrhyw un sy'n arfer pwerau neu gyfrifoldebau sydd wedi cael eu dirprwyo gan yr ymddiriedolwyr, yn atebol am weithredu, neu beidio â gweithredu mewn rhyw ffordd oni bai, drwy weithredu neu beidio â gweithredu, nid yw wedi cyflawni'r ddyletswydd gofal.

## 9. Penodi ymddiriedolwyr

(1) Rhaid cael o leiaf [ ] ymddiriedolwr. Ar wahân i'r ymddiriedolwyr cyntaf, rhaid i bob ymddiriedolwr gael ei benodi [am gyfnod o .......... blwyddyn] trwy benderfyniad yr ymddiriedolwyr a basiwyd mewn cyfarfod arbennig wedi'i alw o dan gymal 15 o'r weithred hon.

(2) Wrth ddewis unigolion i'w penodi fel ymddiriedolwyr, rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i weinyddu'r elusen yn effeithiol.

(3) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gadw cofnod o enw a chyfeiriad a dyddiadau penodi, ailbenodi ac ymddiswyddo pob ymddiriedolwr.

## Nodiadau

fod ymddiriedolwyr yn cael eu penodi am gyfnod sefydlog ac os ydych yn dewis yr opsiwn hwn, dilëwch y cromfachau sgwâr a chwblhewch y nifer ar gyfer y cyfnod o flynyddoedd. Os na fydd y penodiad am gyfnod sefydlog, dilëwch y testun yn y cromfachau sgwâr.

**Cymal 9(4) -** Mae ein canllaw Cael hyd i Ymddiriedolwyr Newydd - Yr hyn y mae angen i elusennau wybod (CC30) yn rhoi canllawiau ar ddulliau effeithiol o recriwtio ymddiriedolwyr newydd. Mae'n cynnwys cyngor ar ba wybodaeth i'w rhoi i ymddiriedolwyr newydd - yn ogystal ag (a) a (b) yma, efallai yr hoffai'r ymddiriedolwyr ddarparu copi o gofnodion cyfarfodydd y flwyddyn flaenorol.

**Cymal 9(5)** - Yr ymddiriedolwyr cyntaf yw'r unigolion hynny a enwir ar ddechrau'r weithred hon. Nid oes angen cynnwys is-gymal (5) os bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau yn y swydd hyd nes eu bod nhw'n ymddeol. Ond mae cynnwys cyfnodau penodi sefydlog yn cynnig rhai manteision, nid lleiaf sicrhau bod y penodiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Os yw'r is-gymal hwn yn cael ei gynnwys, argymhellwn eich bod yn 'amrywio' cyfnodau swyddi'r ymddiriedolwyr cyntaf er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd pob un ohonynt yn gadael y swydd yr un pryd. Er enghraifft, os oes tri ymddiriedolwr, gellid penodi un am gyfnod o bum mlynedd, un am gyfnod o bedair blynedd ac un am gyfnod o dair blynedd.

**Cymal 11(1)** - Mae ein canllaw Cael hyd i Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod (CC30) yn esbonio beth mae adrannau 178 ac 179 y Ddeddf yn ei gwmpasu. Yn fras, bydd rhywun sydd wedi cael ei ddedfrydu'n euog o droseddau sy'n cynnwys dichell neu dwyll, neu sy'n fethdalwr heb ei ryddhau neu yr ydym ni wedi'i ddiswyddo o'i swydd fel ymddiriedolwr, wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr.

(4) Rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y canlynol ar gael i bob ymddiriedolwr newydd pan gaiff ei benodi gyntaf:

(a) copi o'r weithred hon ac unrhyw newidiadau iddi;

(b) copi o adroddiad a datganiad o gyfrifon diweddaraf yr elusen.

(5) Bydd yr ymddiriedolwyr cyntaf yn dal swydd am y cyfnodau canlynol:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

### 10. Cymhwyster i fod yn ymddiriedolwr

(1) Ni chaiff unrhyw un ei benodi fel ymddiriedolwr:

(a) os yw'n iau nag 18 oed; neu

(b) pe byddai wedi'i wahardd ar unwaith rhag dal swydd o dan ddarpariaethau cymal 11 y weithred hon.

(2) Ni fydd hawl gan unrhyw un weithredu fel ymddiriedolwr pan gaiff ei benodi neu ei ailbenodi fel ymddiriedolwr hyd nes ei fod wedi cydnabod yn bendant, ym mha bynnag ffordd a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr, ei fod yn derbyn swydd ymddiriedolwr yr elusen.

### 11. Terfynu swydd ymddiriedolwr

Bydd ymddiriedolwr yn peidio â dal swydd os yw:

(1) wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr yn ôl adrannau 178 a 179 o Ddeddf Elusennau 2011 neu unrhyw ailddeddfu neu addasu statudol o'r ddarpariaeth honno;

(2) ym marn ysgrifenedig, a roddwyd i'r elusen, ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n trin yr unigolyn, yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol i weithredu fel ymddiriedolwr a gall barhau felly am fwy na thri mis;

(3) yn absennol heb ganiatâd yr ymddiriedolwyr o bob un o'u cyfarfodydd a gynhaliwyd o fewn cyfnod o chwe mis ac mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu y dylai adael ei swydd; neu

## Nodiadau

**Cymal 13 -** Rhoddwn arweiniad ar gyfarfodydd yn ein canllaw Elusennau a Chyfarfodydd (CC48).

**Cymal 14** - Nodwch enw un o'r ymddiriedolwyr cyntaf a fydd yn galw'r cyfarfod cyntaf. Nid yw 'diwrnodau clir' yn cynnwys y diwrnod pan fyddai'r rhybudd wedi cael ei dderbyn gan yr ymddiriedolwr neu ddiwrnod cynnal y cyfarfod. Mae Adran 332 Deddf Elusennau 2011 yn disgrifio sut y gellir rhoi rhybudd trwy'r post. Yn fras, gall yr elusen anfon rhybudd at bob ymddiriedolwr i'r cyfeiriad yn y DU a gedwir yng nghofnodion yr elusen: nid oes angen rhoi rhybudd i ymddiriedolwyr sy'n byw y tu allan i'r DU. Ystyrid bod y rhybudd wedi cael ei dderbyn ar y diwrnod pan 'yn ôl trefn arferol y post' y disgwylir iddo gyrraedd: felly dylid disgwyl i lythyr dosbarth cyntaf gyrraedd 1 diwrnod ar ôl ei bostio a dyma'r diwrnod pan ystyrid bod y rhybudd wedi cael ei dderbyn.

(4) yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr ei fod yn dymuno ymddiswyddo (ond dim ond os bydd digon o ymddiriedolwyr yn weddill pan fydd yr hysbysiad i ymddiswyddo yn weithredol i ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfodydd).

### 12. Swyddi gwag

Os yw swydd wag yn codi rhaid i'r ymddiriedolwyr nodi'r ffaith yng nghofnodion eu cyfarfod nesaf. Gall unrhyw ymddiriedolwr cymwys gael ei ailbenodi. Os yw nifer yr ymddiriedolwyr yn is na'r cworwm yng Nghymal 17(1), ni fydd yr ymddiriedolwyr sy'n weddill yn gallu arfer unrhyw bwerau neu ddisgresiwn a roddir gan y weithred hon neu gan y gyfraith ac eithrio'r pŵer i benodi ymddiriedolwyr newydd.

### 13. Cyfarfodydd cyffredin

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gynnal o leiaf dau gyfarfod cyffredin bob blwyddyn. Rhaid i un cyfarfod o'r fath ym mhob blwyddyn gynnwys presenoldeb corfforol yr ymddiriedolwyr hynny sy'n mynychu'r cyfarfod. Gall cyfarfodydd eraill fod ar ryw ffurf, gan gynnwys fideogynadledda, a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr, ar yr amod bod y ffurf a ddewisir yn golygu y gall yr ymddiriedolwyr weld a chlywed ei gilydd.

### 14. Galw cyfarfodydd

Rhaid i'r ymddiriedolwyr drefnu ym mhob un o'u cyfarfodydd ddyddiad, amser a lleoliad eu cyfarfod nesaf, oni bai bod trefniadau o'r fath eisoes wedi cael eu gwneud. Gall cyfarfodydd cyffredin gael eu galw unrhyw bryd hefyd gan y sawl a etholwyd i gadeirio cyfarfodydd ymddiriedolwyr neu gan unrhyw ddau ymddiriedolwr. Yn yr achos hwnnw, rhaid rhoi dim llai na deg diwrnod o rybudd clir i'r ymddiriedolwyr eraill. Rhaid i gyfarfod cyntaf yr ymddiriedolwyr gael ei alw gan ..........................................................................................
neu, os nad yw unrhyw gyfarfod wedi cael ei alw cyn pen tri mis ar ôl dyddiad y weithred hon, gan unrhyw ddau o'r ymddiriedolwyr.

### 15. Cyfarfodydd arbennig

Gall cyfarfod arbennig gael ei alw unrhyw bryd gan y sawl a etholwyd i gadeirio cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr neu gan unrhyw ddau ymddiriedolwr. Rhaid rhoi dim llai na phedwar diwrnod clir o rybudd i'r ymddiriedolwyr eraill am y materion sydd i'w trafod yn y cyfarfod. Fodd bynnag, os bydd y materion hynny'n cynnwys penodi ymddiriedolwr neu gynnig i ddiwygio unrhyw ymddiriedolaethau'r weithred hon, rhaid rhoi dim llai na 21 diwrnod o rybudd. Gall cyfarfod arbennig gael ei alw i'w gynnal yn union ar ôl neu cyn cyfarfod cyffredin.

## 16. Cadeirio cyfarfodydd

Rhaid i'r ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod cyffredin cyntaf bob blwyddyn ethol un o'u plith i gadeirio eu cyfarfodydd. Bydd y sawl a etholir bob amser yn gymwys i gael ei ailethol. Os nad yw'r unigolyn hwnnw yn bresennol o fewn deg munud ar ôl yr amser a drefnwyd ar gyfer cynnal cyfarfod, neu os nad yw unrhyw un wedi cael ei ethol, neu os yw'r sawl a etholwyd wedi peidio â bod yn ymddiriedolwr, rhaid i'r ymddiriedolwyr sy'n bresennol ddewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod. Ni fydd gan y sawl a etholir i gadeirio cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr unrhyw swyddogaethau neu bwerau ychwanegol eraill ac eithrio'r rhai a roddir gan y weithred hon neu a ddirprwywyd iddo neu iddi gan yr ymddiriedolwyr.

## 17. Cworwm

(1) Yn amodol ar ddarpariaeth ganlynol y cymal hwn, ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod yng nghyfarfod yr ymddiriedolwyr oni bai bod o leiaf un rhan o dair o gyfanswm yr ymddiriedolwyr ar y pryd, neu ddau ymddiriedolwr (p'un bynnag yw'r mwyaf) yn bresennol trwy gydol y cyfarfod.

(2) Gall yr ymddiriedolwyr lunio rheoliadau sy'n pennu'r cworymau gwahanol ar gyfer cyfarfodydd sy'n delio â mathau gwahanol o fusnes.

## 18. Pleidleisio

Mewn cyfarfodydd rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud gan fwyafrif o'r ymddiriedolwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn. Bydd pleidlais fwrw gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod os yw wedi pleidleisio cyn hynny ar yr un cwestiwn neu beidio, ond ni fydd mwy nag un bleidlais gan unrhyw ymddiriedolwr mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

**Cymal 19** - Mae hyn yn adlewyrchu arfer da ar reoli gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch.

## 19. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch

Rhaid i ymddiriedolwr elusen;

(1) datgan natur a graddfa unrhyw fudd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig â'r elusen neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniadau'r elusen, sydd heb gael ei ddatgan cyn hynny; a

(2) bod yn absennol o unrhyw drafodaethau'r ymddiriedolwyr elusen lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro rhwng ei ddyletswydd i weithredu er lles yr elusen yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol personol).

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n absennol o unrhyw drafodaethau yn unol â'r cymal hwn bleidleisio neu gael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen ar y mater.

## Nodiadau

**Cymal 20** - Mae hwn yn lleihau'r risg o benderfyniadau'r ymddiriedolwyr yn cael eu datgan yn annilys am resymau technegol yn unig.

## 20. Darpariaethau cadw

(1) Yn amodol ar is-gymal (2) y cymal hwn, bydd pob penderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen, neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen, yn ddilys er gwaetha'r ffaith bod ymddiriedolwr elusen:

(a) sydd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;

(b) a oedd wedi ymddiswyddo yn flaenorol neu yr oedd yn ofynnol iddo adael y swydd gan y weithred hon;

(c) a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall

wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais yr ymddiriedolwyr elusen, os yw'r penderfyniad heb bleidlais yr ymddiriedolwr elusen hwnnw a chyfrif yr ymddiriedolwr elusen yn y cworwm, wedi cael ei wneud gan fwyafrif o'r ymddiriedolwr elusen mewn cyfarfod â chworwm.

(2) Nid yw is-gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr elusen gadw unrhyw fudd y gall unrhyw benderfyniad yr ymddiriedolwr elusen neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen ei roi iddo neu iddi pe fyddai'r penderfyniad, heblaw am is-gymal (1), wedi bod yn annilys, neu os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen wedi cydymffurfio â chymal 19 (Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch).

## 21. Cofnodion

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gadw cofnodion, mewn llyfrau a gedwir at y diben hwn, neu drwy ryw ddull arall a bennir gan yr ymddiriedolwyr, o drafodion eu cyfarfodydd. Yn y cofnodion mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gofnodi eu penderfyniadau a, lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau hynny. Rhaid i'r ymddiriedolwyr gymeradwyo'r cofnodion yn unol â'r gweithdrefnau a bennwyd yn y rheoliadau a luniwyd o dan gymal 22 y weithred hon.

## 22. Pŵer cyffredinol i wneud rheoliadau

(1) Gall yr ymddiriedolwyr, o bryd i'w gilydd, wneud rheoliadau ar gyfer rheoli'r elusen ac ar gyfer ymgymryd â'u busnes, gan gynnwys:

(a) galw cyfarfodydd;

(b) dulliau o wneud penderfyniadau er mwyn delio ag achosion brys pan fydd cyfarfod yn anymarferol;

(c) rhoi arian ar adnau mewn banc;

(ch) gwarchodaeth dogfennau; a

## Nodiadau

**Cymal 22(1)(d)** - Mae Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 a Rheoliadau Llofnodion Electronig 2002 yn caniatáu i lofnodion electronig gael eu derbyn fel tystiolaeth, gyda rhai amodau. Mae'r is-gymal hwn yn crynhoi'r amodau hyn. Yn ymarferol, y rheoliadau yw'r gweithdrefnau mewnol a fabwysiadir gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer gweinyddu'r elusen yn effeithiol. Ni ellir eu defnyddio i newid unrhyw ddarpariaethau yn y weithred hon - mae cymal 31 y weithred hon yn pennu'r drefn ar gyfer diwygio darpariaethau'r weithred hon.

**Cymal 23** – Anghydfodau: Mae'n arfer da i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio ag unrhyw anghydfodau sy'n codi rhwng ymddiriedolwyr. Gall cyfreitha fod yn gostus, a byddai cyfreitha am faterion mewnol elusen bron yn sicr yn cael ei ystyried yn 'drafodion elusen', y gellir ymgymryd â nhw gydag awdurdod y Comisiwn yn unig. Fel arfer byddem yn mynnu bod partïon mewn anghydfod yn ceisio cyfryngu yn gyntaf.

**Cymal 24** - Mae canllawiau ar ein gwefan yn amlinellu'r gofynion cyfrifyddu allweddol i elusennau. Rhaid i bob elusen sydd ag incwm o fwy na £10,000 anfon cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau cyn pen 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cyfeirio ati.

**Cymal 24(5)** - Rhaid i bob elusen sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 anfon ei Hadroddiad Blynyddol atom cyn pen 10 mis o ddiwedd ei blwyddyn ariannol.

**Cymal 24(6)** - Rhaid i bob elusen sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 gwblhau Ffurflen Flynyddol a'i hanfon atom cyn pen 10 mis o ddiwedd ei blwyddyn ariannol: mae'r ffurflen yn darparu crynodeb o ddata ariannol allweddol ac fe'i defnyddir gennym at ddibenion monitro i dynnu sylw at faterion a all fod angen ein sylw neu ein harweiniad.

**Cymal 25** - Mae cofnod elusen yn cynnwys ei henw, cyfeiriad y gohebydd, amcanion a dogfen lywodraethol. Mae'r Comisiwn yn anfon Diweddariad Blynyddol unwaith y flwyddyn i bob elusen ac mae'n ffordd gyfleus o nodi'r manylion hyn. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr roi manylion am unrhyw newidiadau yn y cofnod ond nid oes rhaid iddynt ddefnyddio'r ffurflen hon.

**Cymal 26** - Gall yr ymddiriedolwyr lunio rheoliadau (o dan gymal 22) sy'n caniatáu i eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu'r elusen megis gweithwyr neu wirfoddolwyr i arwyddo sieciau ac archebion eraill mewn perthynas â chyfrifon banc yr elusen, ar yr amod bod

(d) cadw a dilysu cofnodion. (Os yw rheoliadau a wnaed o dan y cymal hwn yn caniatáu i gofnodion yr elusen gael eu cadw ar ffurf electronig ac mae'n ofynnol i ymddiriedolwr arwyddo'r cofnod, rhaid i'r rheoliadau bennu dull o gofnodi'r llofnod sy'n golygu bod modd iddo gael ei ddilysu'n briodol).

(2) Ni all yr ymddiriedolwyr wneud rheoliadau sy'n groes i unrhyw beth yn y weithred hon.

### 23. Anghydfodau

Os oes anghydfod rhwng yr ymddiriedolwyr ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan yr ymddiriedolwyr elusen o dan y weithred hon, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sydd â rhan yn yr anghydfod geisio setlo'r anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfryngu cyn troi at gyfreitha.

### 24. Cyfrifon, Adroddiad Blynyddol a Ffurflen Flynyddol

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Elusennau 2011 mewn perthynas â:

(1) cadw cofnodion cyfrifyddu ar gyfer yr elusen;

(2) paratoi datganiadau o gyfrifon blynyddol ar gyfer yr elusen;

(3) archwilio neu archwilio'n annibynnol datganiadau o gyfrifon yr elusen;

(4) trosglwyddo datganiadau o gyfrifon yr elusen i'r Comisiwn;

(5) paratoi Adroddiad Blynyddol a'i roi i'r Comisiwn;

(6) pharatoi Ffurflen Flynyddol a'i rhoi i'r Comisiwn.

### 25. Manylion cofrestredig

Rhaid i'r ymddiriedolwyr hysbysu'r Comisiwn yn brydlon am unrhyw newidiadau i gofnod yr elusen ar y Gofrestr Ganolog Elusennau.

### 26. Cyfrif banc

Rhaid i unrhyw gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu lle mae unrhyw gronfeydd yr elusen yn cael eu hadneuo gael ei weithredu gan yr ymddiriedolwyr a'i ddal yn enw'r elusen. Oni bai bod rheoliadau'r ymddiriedolwyr yn darparu fel arall, bydd pob siec ac archeb ar gyfer talu arian o gyfrif o'r fath yn cael ei arwyddo gan o leiaf dau ymddiriedolwr.

## Nodiadau

y gweithgareddau hyn yn cael eu rheoli'n briodol er mwyn lleihau'r risg o dwyll. Er enghraifft, gallai'r ymddiriedolwyr ganiatáu i ddau uwch weithiwr neu wirfoddolwr arwyddo sieciau hyd at werth enwol diffiniedig, gyda therfyn ar gyfanswm gwerth y sieciau y maent wedi'u hawdurdodi i'w harwyddo mewn unrhyw fis. Yn achos elusennau sy'n gweithredu cyfrifon banc electronig, mae canllawiau ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr ac arferion gorau gweithredu i'w gweld yn Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau (CC8) ar ein gwefan.

**Cymal 27** - Defnyddio incwm ac eiddo

Mae **(1)** yn amlinellu hawl ymddiriedolwyr i gael costau rhesymol ac mae'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf 1993 ynglŷn â hawl ymddiriedolwr elusen i gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr. Mae wedi'i gynnwys yn y weithred i roi gwybod i bobl sy'n ymwneud â'r elusen.

Mae **(2)** yn adlewyrchu gofynion y gyfraith elusennol bod rhaid i incwm ac eiddo elusen gael eu defnyddio i hyrwyddo ei hamcanion yn unig ac nid i gynnig budd i'r ymddiriedolwyr elusen (ac eithrio fel y caniateir gan y ddogfen lywodraethol - gweler cymal 28 - neu bŵer penodol arall). Mae dyletswydd ar yr ymddiriedolwyr i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n gywir yn unol â'r egwyddor hon.

**Cymal 28** - Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig - Gall ymddiriedolwyr elusen gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdod cyfreithiol penodol ganddynt i wneud hynny (megis cymal yn y weithred ymddiriedolaeth). Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys pobl sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr ('unigolion cysylltiedig' - mae'r term hwn wedi'i ddiffinio yng nghymal 33 Dehongli). Mae'r cymal hwn yn egluro'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r ymddiriedolwyr elusen. Hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr wedi'u caniatáu i gael budd o'r elusen, rhaid i hyn ddigwydd dim os yw'r budd er lles yr elusen. Mae ein canllaw Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11) yn rhoi rhagor o wybodaeth am fuddion ymddiriedolwyr.

Mae'r cymal hwn yn caniatáu i leiafrif o'r ymddiriedolwyr elusen neu unigolion cysylltiedig gael taliadau a buddion eraill mewn rhai achosion (megis ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflenwi i'r elusen), yn amodol ar y rheolaethau a nodwyd. Mae'r dewis hefyd yn caniatáu mathau eraill o fudd ymddiriedolwyr, yn amodol ar gydsyniad

## 27. Defnyddio incwm ac eiddo

(1) Rhaid i incwm ac eiddo'r elusen gael ei ddefnyddio tuag at hyrwyddo'r amcanion yn unig.

(a) Mae hawl gan ymddiriedolwr elusen gael ei ad-dalu o eiddo'r elusen neu gall dalu o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol sy'n codi wrth weithredu ar ran yr elusen.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr a brynwyd gan yr elusen yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 189 Deddf Elusennau 2011.

(2) Yn amodol ar gymal 28, ni all unrhyw incwm neu eiddo'r elusen gael eu talu neu eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfrwng difidend, bonws neu fel arall trwy gyfrwng elw i unrhyw ymddiriedolwr elusen.

## 28. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig

(1) **Darpariaethau cyffredinol**

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig:

(a) prynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr elusen ar delerau sy'n well na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;

(b) gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fudd mewn tir i'r elusen;

(c) cael ei gyflogi gan yr elusen, neu dderbyn unrhyw dâl gan yr elusen;

(ch) cael unrhyw fudd ariannol arall gan yr elusen;

oni bai bod y taliad neu'r budd wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu gan y Comisiwn Elusennau ('y Comisiwn'). Yn y cymal hwn ystyr 'budd ariannol' yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

(2) **Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig**

(a) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd o'r elusen yn ei rinwedd fel buddiolwr yr elusen ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cael budd yn y modd hwn.

## Nodiadau

blaenorol y Comisiwn.

Ni all elusennau sydd eisoes yn bod fabwysiadu'r pwerau hyn heb awdurdod y Comisiwn Elusennau.

Nid yw unrhyw ran o'r cymal yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr dderbyn tâl am weithredu fel ymddiriedolwr.

**Erthygl 28(2)(a)** - Os bydd eich elusen yn cynnig budd i'r holl drigolion lleol mewn ardal ddaearyddol arbennig (e.e. ymddiriedolaeth gymunedol) efallai yr hoffech chi roi'r geiriau canlynol yn ei le: 'Gall ymddiriedolwr neu unigolyn cysylltiedig gael budd gan yr elusen fel buddiolwr ar yr amod ei fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr yr elusen.'

(b) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig arwyddo contract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â darparu gwasanaethau, i'r elusen lle y caniateir hynny yn unol â'r amodau yn adran 185 Deddf Elusennau 2011, ac yn ddarostyngedig i'r amodau hynny.

(c) Yn amodol ar is-gymal (3) y cymal hwn gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig roi nwyddau i'r elusen nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i'r elusen gan ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig.

(ch) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r elusen ar gyfradd resymol a phriodol sy'n rhaid bod yn 2% (neu fwy) y flwyddyn yn is na chyfradd sylfaenol banc clirio i'w ddewis gan yr ymddiriedolwyr elusen.

(d) Gall yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig gael rhent am adeiladau a osodir gan yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig â'r elusen. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen dan sylw adael unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

(dd) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr elusen ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

(3) **Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig - rheolaethau**

Gall yr elusen a'i hymddiriedolwyr elusen ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal (2)(c) o'r cymal hwn dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

(a) Mae swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau wedi'i bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr elusen a'r ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ('y cyflenwr') ac o dan y cytundeb bydd y cyflenwr yn cyflenwi'r nwyddau dan sylw i'r elusen neu ar ei rhan.

(b) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau dan sylw yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

## Nodiadau

(c) Mae'r ymddiriedolwyr elusen eraill yn fodlon ei fod er lles gorau'r elusen i arwyddo contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun sydd heb fod yn ymddiriedolwr elusen neu'n unigolyn cysylltiedig. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen bwyso a mesur manteision arwyddo contract gydag ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

(ch) Mae'r cyflenwr yn absennol o'r rhan o'r cyfarfod lle y trafodir y cynnig i arwyddo contract neu drefniadau gydag ef neu hi ynghylch cyflenwi nwyddau i'r elusen.

(d) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm yr ymddiriedolwyr yn bresennol yn y cyfarfod.

(dd) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan yr ymddiriedolwyr elusen yn y llyfr cofnodion.

(e) Nid yw mwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan gymal 28.

(4) Yn is-gymalau (2)-(3) y cymal hwn:

(a) bydd 'elusen' yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r elusen:

(i) yn dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu

(ii) yn rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau; neu

(iii) yn cael hawl i benodi un neu ragor o'r ymddiriedolwyr i fwrdd y cwmni.

(b) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn mae 'unigolyn cysylltiedig' yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad a nodwyd yng nghymal 33 (Dehongli).

**Cymal 29** - Dyma'r gofynion lleiaf a dylai ymddiriedolwyr ystyried a oes angen unrhyw fathau eraill o yswiriant.

### 29 Cynnal a chadw ac yswiriant

Rhaid i'r ymddiriedolwyr gynnal a chadw ac yswirio i'w gwerth llawn holl adeiladau'r elusen yn erbyn tân a risgiau arferol eraill (ac eithrio'r adeiladau hynny y mae'n ofynnol i denant eu cynnal a'u cadw a'u hyswirio). Rhaid iddynt hefyd yswirio'n addas ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus atebolrwydd cyflogwyr.

### 30 Treuliau

Gall yr ymddiriedolwyr ddefnyddio arian yr elusen i dalu am unrhyw dreuliau angenrheidiol a rhesymol ac sy'n codi wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr yr elusen.

## 31 Diwygio gweithred ymddiriedolaeth

(1) Gall yr ymddiriedolwyr ddiwygio darpariaethau'r weithred hon, ar yr amod:

(a) ni ellir diwygio cymal 3 (Amcanion), cymal 8 (Dyletswydd gofal a graddfa atebolrwydd), cymal 27 (Defnyddio incwm ac eiddo) a chymal 28 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig), cymal 32 (Diddymu) neu'r cymal hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y Comisiwn ymlaen llaw; a

(b) ni ellir gwneud unrhyw ddiwygiad a fyddai'n golygu nad yw'r elusen yn elusen mwyach yn ôl y gyfraith.

(c) ni all unrhyw ddiwygiad gael ei wneud i newid yr amcanion pe byddai'r newid hwn yn tanseilio neu'n groes i amcanion blaenorol yr elusen.

**Cymal 31(2) -** Sylwch, gellir newid enw o dan gymal 2 trwy benderfyniad yn unig; nid oes rhaid iddo gael ei gadarnhau trwy weithred.

(2) Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r weithred hon gael ei wneud trwy gyfrwng gweithred yn dilyn penderfyniad yr ymddiriedolwyr mewn cyfarfod arbennig.

(3) Rhaid i'r ymddiriedolwyr anfon copi o'r weithred sy'n gweithredu unrhyw ddiwygiad a wneir o dan y cymal hwn i'r Comisiwn cyn pen tri mis o'i gwneud.

## 32. Diddymu

(1) Gall yr ymddiriedolwyr ddiddymu'r elusen os ydynt yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i wneud hynny. Er mwyn cael ei weithredu, rhaid i gynnig i ddiddymu'r elusen gael ei basio mewn cyfarfod arbennig gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r ymddiriedolwyr. Rhaid i unrhyw asedau'r elusen sy'n weddill ar ôl talu dyledion yr elusen ('yr asedau net') gael eu rhoi:

(a) i elusen arall (neu elusennau eraill) sydd ag amcanion sydd yr un fath neu'n debyg i amcanion yr elusen ei hun, at ddibenion cyffredinol yr elusen (neu elusennau) sy'n eu derbyn; neu

(b) i unrhyw elusen i'w defnyddio at ddibenion penodol sydd wedi'u cynnwys o fewn amcanion yr elusen.

(2) Rhaid hysbysu'r Comisiwn yn brydlon pan fydd yr elusen wedi cael ei diddymu ac, os oedd yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr anfon cyfrifon yr elusen i'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddiweddodd cyn ei diddymu, mae'n rhaid iddynt anfon cyfrifon terfynol yr elusen i'r Comisiwn.

## 33 Dehongli

(1) Yn y weithred hon:

deellir bod pob cyfeiriad at ddeddfwriaeth benodol yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar ddyddiad y weithred hon, a hefyd unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol sy'n ychwanegu at y ddeddfwriaeth honno, ei diwygio neu ei disodli.

(2) Ystyr 'unigolyn cysylltiedig' yw:

- (a) plentyn, rhiant, wyrion, teidiau a neiniau, brodyr neu chwiorydd yr ymddiriedolwr;
- (b) gŵr neu wraig neu bartner sifil yr ymddiriedolwr neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraff (a) uchod;
- (c) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth â'r ymddiriedolwr neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraff (a) neu (b) uchod;
- (ch) sefydliad sydd wedi'i reoli -
  - (i) gan yr ymddiriedolwr neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraff (a), (b) neu (c) uchod; neu
  - (ii) gan ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-baragraff (ch)(i), gyda'i gilydd
- (d) corff corfforaethol lle mae gan -
  - (i) yr ymddiriedolwr elusen neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraffau (a) i (c) fudd sylweddol; neu
  - (ii) dau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-baragraff (d)(i), gyda'i gilydd, fudd sylweddol.

(3) Mae adrannau 350 - 352 Deddf Elusennau 2011 yn gymwys at ddibenion dehongli'r termau a ddefnyddir yn is-gymal (2) uchod.

**Nodiadau**

Mae hyn yn golygu bod modd i hyd at chwe ymddiriedolwr arwyddo a bod modd tystio'r llofnodion hyn er mwyn i'r ddogfen fod yn weithred ffurfiol. Dylai'r ymddiriedolwyr cyntaf a enwir ar ddechrau'r ddogfen ei harwyddo. Dylai'r tyst(tystion) fod yn annibynnol ac nid, er enghraifft, yn berthynas teulu agos unrhyw un o'r ymddiriedolwyr cyntaf. Dylai'r ymddiriedolwr cyntaf arwyddo yn 1(a) a dylai'r tyst arwyddo yn 1(b) a rhoi ei enw a'i gyfeiriad lle y nodir; dylai'r ymddiriedolwr nesaf arwyddo yn 2(a) a dylai'r tyst i'r llofnod hwnnw gwblhau 2(b) ac ati hyd nes bod pob ymddiriedolwr wedi arwyddo. Os oes mwy na chwe ymddiriedolwr, ychwanegwch fwy o le gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ar gyfer y chwe set gyntaf o fanylion.

## YN DYST i'r weithred hon mae'r partïon iddi wedi arwyddo isod

1. Arwyddwyd fel gweithred gan:

1(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis)............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

1(b)..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

2. Arwyddwyd fel gweithred gan:

2(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis)............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

2(b)..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

3. Arwyddwyd fel gweithred gan:

3(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis)............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

3(b) ..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

## Nodiadau

4. Arwyddwyd fel gweithred gan:

4(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis) ............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

4(b) ..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

5. Arwyddwyd fel gweithred gan:

5(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis) ............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

5(b) ..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

6. Arwyddwyd fel gweithred gan:

6(a) ..........................................................................................................

ar y .......... (diwrnod) o ....................................... (mis) ............. (blwyddyn)

yng ngŵydd:

6(b) ..........................................................................................................

Enw'r tyst:

..........................................................................................................

Cyfeiriad y tyst:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................